

Safonau'r Gymraeg Gweinidogion Cymru
Cynllun Gweithredu Cydymffurfio
Safonau sydd yn ymdrin a materion atodol: 159, 165, 171

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH				
Gwasanaeth a ddarperir	Safonau perthnasol	Dull o gydymffurfio	Hybu a Hwyluso	Trefniadau Goruchwyllo
Gohebiaeth	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7	Mae'r egwyddor o ateb gohebiaeth yn yr iaith y derbynnir, yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn egwyddor sydd wedi hen sefydlu yn Llywodraeth Cymru, ers gweithredu'r Cynllun iaith Gymraeg. Gosodwyd y datganiad canlynol yn nhroednodyn holl e-byst Llywodraeth Cymru a anfonir allan o'r sefydliad, ynghyd ag ar dempledi corfforaethol llythyron y Gweinidogion, yr Ysgrifennydd Parhaol, a'r templed corfforaethol i staff sydd ar y fewnwyd: <i>Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn</i>	Mae Hysbysiad Cydymffurfio Gweinidogion Cymru, sydd yn darparu manylion y safonau Cyflenwi Gwasanaeth, Gweithredu, Llundio Polisi a Cadw Cofnodion sydd wedi eu gosod ar Weinidogion Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg, wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal ac ar y fewnwyd staff.	Sicrheir goruchwyliaeth o gydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru gyda safonau'r Gymraeg mewn amryw o ffyrdd. Darperir adroddiadau cyson i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar weithrediad y Safonau. Mae cwynion sydd yn berthnasol i'r safonau a'r Gymraeg yn fwy cyffredinol yn cael eu monitro fel rhan o waith monitro cwynion ehangach Llywodraeth Cymru, gyda phapur ar ddata blynyddol yn cael ei baratoi at sylw Bwrdd y Llywodraeth yn flynyddol. Cynhwysir

		<i>Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.</i> <i>We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.</i> Addaswyd basau data amrywiol sydd ar waith gan adrannau'r Llywodraeth i gynnwys manylion rhanddeiliaid a chwsmeriaid i sicrhau fod dewis iaith wedi ei gynnwys fel maes penodol. Gosodwyd canllawiau ar y fewnrwyd staff i egluro'r gofynion o ran cydymffurfio gyda'r safonau sydd yn ymwneud a gohebiaeth.	adran yn y papur ar gwynion yn ymwneud a'r safonau a'r Gymraeg. Craffir ar natur y cwynion yn ogystal a data ar nifer y cwynion a dderbynnir gan bob Grwp yn y Llywodraeth. Mae dangosyddion perfformiad ynghylch cydymffurfiaeth y Llywodraeth gyda'i ofynion statudol wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru. Mae'r Fframwaith Perfformiad, a gyflwynwyd yn 2019, yn cynnwys dangosyddion amrywiol am berfformiad y Llywodraeth mewn 19 o feysydd penodol, gan gynnwys y Gymraeg. Adroddir ar berfformiad i Fwrdd y Llywodraeth bob 6 mis. Edrychir ar 4 maes o safbwynt y Gymraeg: cefnogaeth sefydliadol i'r iaith, cydymffurfiaeth gyda'r safonau, defnydd y Gymraeg gan y gweithlu a
Llinellau Cymorth Ffôn neu ganolfannau galw	8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 17	Rhannwyd gwybodaeth am ofynion y safonau sydd yn ymwneud gyda chanolfannau galw ar y fewnrwyd staff i sicrhau fod saff yn ymwybodol o'r gofynion.	

		Mae gan Ganolfan Alw Llywodraeth Cymru dim o staff all ateb galwadau yn ddwyieithog. Darperir llawer o wasanaethau canolfannau galw drwy gyfrwng contractau trydydd parti, a sicrhair fod rheolwyr contract yn ymwybodol o ofynion y Safonau drwy gyfrwng canllaw contractio a ddarparwyd i staff. Cynhaliwyd arolwg mewnol o gydymffurfiaeth y Llywodraeth gyda'r safonau canolfannau galw yn ystod 2021.		sgiliau Cymraeg y gweithlu. Trwy gyfrwng yr Holiadur Rheolaethau Mewnol, sydd yn rhan o gylch gwaith y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Llywodraethiant Corfforaethol, darperir adroddiad manwl i Fwrdd y Llywodraeth ar berfformiad y sefydliad o ran rheolaeth a llywodraethiant yn flynyddol. Mae adran benodol o fewn yr holiadur ar gydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg er mwyn craffu ar drefniadau grwpiau a chyfarwyddiaethau'r Llywodraeth i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'u dyletswyddau statudol. Yn fwy cyffredinol mae Rhwydwaith Cydlynwyr y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn rhan allweddol o ddarparu sicrwydd ar gydymffurfiaeth. Mae'r Rhwydwaith yn cwrdd yn
Galwadau ffôn i staff	18,20,21,22	Cynhyrchwyd canllaw cyfarch ac ateb y ffon yn ddwyieithog pan ddaeth y safonau i rym a gosodwyd un ar bob desg ym mhob un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Datblygwyd cwrs hyfforddiant i staff y Llywodraeth i roi hyder i staff ar ateb galwadau yn Gymraeg. Rhoddwyd cyfarwyddiadau i staff ar sut i drosglwyddo galwad i		

		siaradwr Cymraeg ar y fewnrwyd. Sicrhawyd fod negeseuon cyffredinol ar ffonau wedi eu hawtomeiddio'n ddwyieithog.		ddeufisol a darperir adroddiad llawn gan bob Cydlynnydd ar weithgareddau eu hardal fusnes yn ystod y deufis diwethaf. Mae cyfarfodydd y Rhwydwaith yn allweddol ar gyfer trafod rhwystrau i gydymffurfio, arfer dda a rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau a dehongliadau allweddol o ofynion cydymffurfiaeth. Darperir gwybodaeth yn flynyddol i'r Comisiynydd ar ffurf holiadur hunan asesu er mwyn darparu trosolwg o drefniadau'r sefydliad ar gyfer cydymffurfio gyda gofynion y safonau yn ogystal. Mae Adroddiad Blynnyddol yn cael ei ddrafftio mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad yn delio gyda'r modd y bu i Weinidogion Cymru gydymffurfio gyda'r safonau (cyflenwi
Cyfarfodydd (gyda rhanddeiliaid a/neu aelodau o'r cyhoedd)	24, 24A, 26, 26A, 27, 27A, 29, 29A	Datblygwyd canllaw i staff er mwyn cynorthwyo gyda dealltwriaeth o ofynion y safonau yn ymwneud gyda chyfarfodydd neu ddigwyddiadau ar gyfer cynulleidfa wedi'i wahodd ymlaen llaw. Mae'r canllaw yn cael ei rannu'n helaeth ac mae copi ohono ar y fewnrwyd staff. Mae hanfodion y safonau gohebiaeth, galwadau ffon a chyfarfodydd yn rhan greiddiol o'r gweithdai staff ar y safonau a'r sesiynau cynefino a gynhelir i staff newydd. Darparwyd gwybodaeth ar sut i drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd ar y fewnrwyd staff.		
Cyfarfodydd agored, cyhoeddus	30,31,32,33,34	Datblygwyd canllaw penodol i staff ar sut i fynd ati i drefnu cyfarfodydd agored, cyhoeddus.		

		Mae'r canllaw ar y fewnrwyd staff.		gwasanaeth, llunio polisi a gweithredu) yr oeddent o dan ddyletswydd i gydymffurfio gyda nhw yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ynghylch: Cwynion blynyddol yn ymwneud gyda cydymffurfiaeth gyda'r safonau; Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg; Nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg; Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda chategori sgiliau ieithyddol y swyddi hynny. Gellir gweld yr Adroddiad Blynyddol cyfredol drwy ddilyn y ddolen yma: Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021 i 2022 LLYW.CYMRU
Digwyddiadau cyhoeddus	35,36 *	Disgrifir y gofynion wrth drefnu digwyddiad cyhoeddus ar y fewnrwyd staff.		
Cyhoeddusrwydd a hysbysebu	37 *	Datblygwyd canllaw manwl i staff sydd cael ei adolygu a'i addasu'n rheolaidd ar gyfer cydymffurfio gyda safonau sydd ymwneud gyda gofion marchnata a chyfathrebu. Mae'r canllaw wedi ei rannu'n helaeth gyda staff, contractwyr sydd yn rhedeg ymgyrchoedd ar ran y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill.		
Arddangos deunydd yn gyhoeddus	38	Mae'r gofynion wedi eu cynnwys yn ein canllawiau lu i staff – y canllawiau marchnata a chyfathrebu a'r gofynion ar gyfer trefnu cyfarfodydd.		
Cyhoeddi dogfennau a ffurflenni	40,47,48,49, 50, 50A, 50B, 51	Mae gofynion cyhoeddi dogfennau'n Gymraeg wedi eu cynnwys ar y fewnrwyd staff fel canllaw. Mae templedi dogfennau a ffurflenni safonol Llywodraeth		

		Cymru a ddylunnir yn cynnwys y datganiad Mae'r ddogfen/ffurflen yma hefyd ar gael yn Gymraeg	
Gwefannau a gwasanaethau ar-lein	52,55,56,57	Datblygwyd canllawiau yn seiliedig ar ddogfen gyngor y Comisiynydd i staff ar gyfer comisiynu gwasanaethau digidol. Sicrhawyd fod y wefan gorfforaethol a'r holl wefannau cysylltiedig yn cydymffurfio'n llawn gyda'r gofynion.	
Cyfryngau cymdeithasol	58,59	Mae'r canllaw cyfathrebu a marchnata yn manylu ar ein dull o gyfathrebu gyda gofynion y cyfryngau cymdeithasol. Datblygwyd arbenigedd o fewn y gyfarwyddiaeth Cyfathrebu a rhennir yr arbenigedd yn helaeth drwy weithio'n agos gyda chontractwyr ar ein fframwaith cyfathrebu a marchnata ac unrhyw un sydd yn gwneud gwaith ar ein rhan. Adolygir ac addasir y canllawiau yn gyson wrth i'r maes yma ddatblygu ac esblygu.	

Peiriannau hunanwasanaeth	60	Sicrhawyd fod peiriannau hunanwasanaeth ar stad y Llywodraeth neu a weithredir ar ran y Llywodraeth yn cydymffurfio.		
Arwyddion	61,62,63 *	Mae trefn i wirio testun ar arwyddion ffyrdd newydd gyda Gwasanaeth Cyfieithu'r Llywodraeth.		
Gwasanaethau derbynfa	64,67,68	Datblygwyd contract er mwyn darparu gwasanaethau derbynfa ym mhrif swyddfeydd y Llywodraeth. Mae'r gofyniad i gael gwasanaethau dwyieithog yn un o ofynion craidd y contract.	Sicrhawyd fod derbynfeydd yn arddangos logo laith Gwaith yn amlwg er mwyn hyrwyddo'n hymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Gosodwyd y logo yn amlwg iawn yn nerbynfa y brif swyddfa ym Mharc Cathays, gyda'r gair Croeso hefyd yn amlwg. Paratowyd astudiaeth achos ar gyfer adran arferion effeithiol Comisiynydd y Gymraeg ar ei gwefan yn hyrwyddo'r arfer.	
Cyhoeddi neu arddangos hysbysiadau swyddogol	69,70	Sicrheir fod hysbysiadau swyddogol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.		
Dyfarnu arian grant	71,72, 72A, 74, 75	Darperir wybodaeth ar y fewnwyd staff ynghylch y gofyniad i ddarparu proses grantiau ddwyieithog i ymgeiswyr arian grant y Llywodraeth.	Mae Tim y safonau'n gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn y Llywodraeth i sicrhau fod y gofynion wrth	

			ymwneud a'r broses grantiau yn glir i reolwyr grant.	
Dyfarnu contractau	76,77, 77A, 79, 80	Darparwyd canllawiau manwl ac addaswyd templedi manylebau contractau i adlewyrchu gofyniad y safonau o fewn contractau. Gofynnir i reolwyr contract restru'r safonau sydd yn berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir gan y contract oddi fewn y fanyleb.	Trefnir sesiynau gweithdy gyda fframweithiau o gontractwyr o bryd i'w gilydd i hyrwyddo gofynion y safonau, ee contractwyr yn y maes trafnidiaeth a chyfathrebu.	
Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg	81,82	Sicrhir fod mesurau mewn lle i hyrwyddo'n gwasanaethau Cymraeg boed hynny dros y ffon, yn y cyfryngau cymdeithasol, ar y wefan neu wyneb yn wyneb drwy gyfuniad o weithredoedd gwahanol.		
Datblygu a chyflwyno hunaniaeth gorfforaethol	83	Mae brand gorfforaethol y Llywodraeth yn ddwyieithog, a datblygir unrhyw frandiau newydd ar gyfer cynlluniau a phrosiectau yn gwbl ddwyieithog. Anogir brandio Cymraeg yn unig, megis Taith, ar gyfer prosiectau unigol.		
Cyrsiau addysg ar gyfer y cyhoedd	84,85	Os darperir cyrsiau hyfforddi i'r cyhoedd gan y Llywodraeth, gofynnir am ddewis iaith mynychwyr ymlaen llaw.		
System annerch y cyhoedd	87	Mae systemau annerch cyhoeddus yn gweithredu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'w chlywed yn gyntaf. Yr unig		

		eithriad i'r gofyniad yw cyhoeddiadau twnnel brys.		
Arwyddion yn y gweithle	141, 142, 143	Sicrheir fod pob arwydd o fewn ystâd y Llywodraeth yn ddwyieithog, gan gynnwys arwyddion dros dro. Datblygwyd llyfrgell o arwyddion dros dro i staff eu hargraffu ar y fewnwyd.		

SAFONAU LLUNIO POLISI				
Gwasanaeth a ddarperir	Safonau perthnasol	Dull o gydymffurfio	Hybu a Hwyluso	Trefniadau Goruchwylio
Llunio, adolygu neu addasu polisi	88, 89, 90	Mae adnodd asesu effaith integredig Llywodraeth Cymru yn tywys staff drwy'r broses o sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu polisiâu a deddfwriaeth. Ceir 5 cam i'r broses, sef cynllunio, asesu, cofnodi, ymgynghori a chyhoeddi/mireinio. Darperir templed ar gyfer asesu effaith gyda'r Gymraeg yn rhan o'r templed gorfforaethol. Datblygwyd pecyn cymorth i staff gan gynnwys canllaw cam wrth gam, llawlyfr data gyda	Cynhelir sesiynau syrjeri o bryd i'w gilydd i staff ddod i drafod y broses. Yn ystod wythnos bolisi'r Llywodraeth cynhelir sesiynau ar y broses, a thrafodir y broses fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd deufisol Cydlynwyr y Gymraeg y Llywodraeth.	Mae proses oruchwylio drylwyr mewn lle. Cyflwynir asesiadau i'w clirio'n ffurfiol gan swyddogion isadran Cymraeg 2050, er mwyn sicrhau fod polisiâu yn cydblethu gydag amcanion strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg. Daw cydweithwyr ar Dim Safonau'r Gymraeg neu at eu Cydlynnydd Gwasanaethau Cymraeg am gyngor ar gynnwys y

		ffeithiau allweddol am y Gymraeg i lywio'r broses a dogfen gair o gyngor / top tips ar gyfer cwblhau'r asesiad.		safonau o fewn manylebau contractau.
Cyhoeddi dogfennau ymgynghori	91, 92, 93	Mae templed safonol ymgynghoriadau'r Llywodraeth yn cynnwys cwestiynau safonol ynghylch ystyried effaith y polisi/cynnig/deddfwriaeth arfaethedig ar y Gymraeg.		
Cyhoeddi polisi dyfarnu grantiau	94	Wele polisi dyfarnu grantiau'r Llywodraeth yn Atodiad 1		
Comisiynu neu gwneud gwaith ymchwil	95, 96, 97	Mae manylebau contractau ymchwil y Llywodraeth yn cynnwys geiriad safonol ynghylch ystyried gofynion y safonau a'r Gymraeg o fewn y contract.		

SAFONAU GWEITHREDU				
Disgrifiad	Safonau perthnasol	Dull o gydymffurfio	Hybu a Hwyluso	Trefniadau Goruchwylio
Cyhoeddi polisi defnydd mewnol	98	'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd' yw polisi defnydd mewnol Llywodraeth Cymru sydd wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan a'n mewnrodd staff.	Mae rhaglen ar waith i dynnu sylw at amcanion ac egwyddorion y strategaeth, i annog cyrff sector cyhoeddus i ystyried a gosod nodau hir dymor ar gyfer y Gymraeg o fewn eu sefydliadau.	Paratoir diweddariadau blynyddol ar weithredu 10 Amcan y strategaeth rhwng 2020-2025. Mae'r strategaeth yn ffurfio rhan o Fframwaith Perfformiad y Llywodraeth, ac

Recriwtio	99, 136, 136A, 137, 137A, 137B, 139, 140, 141	Mae cynlluniau cadarn mewn lle i gydymffurfio gyda gofynion recriwtio'r safonau gan gynnwys holi dewis iaith ymgeiswyr wrth iddynt ymgeisio am swyddi ar ein gwefan recriwtio, Penodi. Asesir sgiliau bob swydd wag a newydd fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer recriwtio, gyda ffurflen asesu helaeth wedi ei datblygu i reolwyr llinell. Defnyddir ffurflen debyg ar gyfer y broses o benodi i apwyntiad cyhoeddus. Ceir system recriwtio arlein, Penodi, sy'n caniatáu ymgeisio'n Gymraeg ar gyfer swyddi a hysbysebiri. Caniateir cynnal cyfweiliadau ac asesiadau yn Gymraeg, a hysbysir unigolion o benderfyniadau yn Gymraeg, os mai Cymraeg yw eu dewis iaith.		adroddir arni'n flynyddol i Fwrdd y Llywodraeth. Adroddir ar ddata y Safonau Gweithredol yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraeth ar weithredu'r Safonau. Mae dangosyddion perfformiad ynghylch cydymffurfiaeth y Llywodraeth gyda'i ofynion statudol wedi cael eu cynnwys yn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru. Mae'r Fframwaith Perfformiad, a gyflwynwyd yn 2019, yn cynnwys dangosyddion amrywiol am berfformiad y Llywodraeth mewn 19 o feysydd penodol, gan gynnwys y Gymraeg.
Cofnodi Dewis iaith	99, 100, 101, 102, 103	Ceir system cofnodi iaith ar sail dewis iaith yn ystod y broses benodi. Darperir y dogfennau perthnasol yn Gymraeg.		Adroddir ar berfformiad i Fwrdd y Llywodraeth bob 6 mis. Edrychir ar 4 maes o safbwynt y Gymraeg: cefnogaeth sefydliadol i'r iaith, cydymffurfiaeth gyda'r
Dogfennau AD	104	Ceir copïau Cymraeg o'r dogfennau a restrir ar fewnwyd staff y Llywodraeth.		

Polisiâu AD	105-111	Darperir copïau Cymraeg o bolisiâu AD y Llywodraeth ar y fewnrwyd staff.		safonau, defnydd y Gymraeg gan y gweithlu a sgiliau Cymraeg y gweithlu.
Cwynion a Disgyblu	112-119	Mae prosesau'r Llywodraeth yn caniatáu i staff ymgymryd a'r prosesau cwyno a disgyblu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys y dogfennaeth briodol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a staff dwyieithog i ymgymryd a'r prosesau.		Trwy gyfrwng yr Holiadur Rheolaethau Mewnol, sydd yn rhan o gylch gwaith y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Llywodraethiant Corfforaethol, darperir adroddiad manwl i Fwrdd y Llywodraeth ar berfformiad y sefydliad o ran rheolaeth a llywodraethiant yn flynyddol. Mae adran benodol o fewn yr holiadur ar gydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg er mwyn craffu ar drefniadau grwpiau a chyfarwyddiaethau'r Llywodraeth i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'u dyletswyddau statudol.
Adnoddau TG a mewnrwyd staff	120-126	Mae pecyn Cysgliad ar gael yn ddiofyn i bob aelod o staff ar ei ddyfais. Darperir cyngor ar y fewnrwyd ar osod gosodiadau Cymraeg fel rhyngwyneb ar ddyfeisiau a sut i osod y fewnrwyd i'r Gymraeg. Ein bwriad maes o law yw gweithredu cynllun gosodiadau diofyn i siaradwyr Cymraeg y Llywodraeth. Mae'r fewnrwyd gyfan ar gael yn Gymraeg i staff, gyda modd ei chael i agor yn ddiofyn yn Gymraeg wrth fewngofnodi i ddyfeisiau. Mae dolen i symud rhwng tudalennau Cymraeg a Saesneg y fewnrwyd ar bob tudalen.		Yn fwy cyffredinol mae Rhwydwaith Cydlynwyr y Gymraeg Llywodraeth

		Mae adran helaeth ar y fewnrwyd yn ymwneud a'r Gymraeg yn cynnwys gwybodaeth am: -y safonau -Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd -Cymraeg 2050 -y broses asesu effaith polisïau a deddfwriaeth -trefniadau a gwasanaethau'r Gwasanaeth Cyfieithu. Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys llu o ganllawiau a gwybodaeth i staff ar y gofynion statudol a gweithio dwyieithog.		Cymru yn rhan allweddol o ddarparu sicrwydd ar gydymffurfiaeth. Mae'r Rhwydwaith yn cwrdd yn ddeufisol a darperir adroddiad llawn gan bob Cydlynnydd ar weithgareddau eu hardal fusnes yn ystod y deufis diwethaf. Mae cyfarfodydd y Rhwydwaith yn allweddol ar gyfer trafod rhwystrau i gydymffurfio, arfer dda a rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau a dehongliadau allweddol o ofynion cydymffurfiaeth.
Sgiliau iaith y Gweithlu	127	Darperir matrices ar gyfer cofnodi sgiliau iaith pob aelod o staff ar y fewnrwyd AD. Mae'r fewnrwyd yn gam gorfodol wrth i staff newydd gofrestru eu manylion wrth ddechrau mewn swydd yn y Llywodraeth. Atgoffir staff yn flynyddol i ddiweddarau eu cofnod sgiliau iaith. Yn Arolwg Pobl blynyddol staff Llywodraeth Cymru mae cwestiynau ynghylch sgiliau iaith hefyd wedi eu cynnwys.		Darperir gwybodaeth yn flynyddol i'r Comisiynydd ar ffurf holiadur hunan asesu er mwyn darparu trosolwg o drefniadau'r sefydliad ar gyfer cydymffurfio gyda gofynion y safonau yn ogystal.

Hyfforddiant i staff	128-133	Cynigir ystod eang o gyrsiau hyfforddiant, gan gynnwys y rhai a restrir yn safonau 128, 129 a 132 yn Gymraeg. Datblygwyd rhaglen eang o gyfleoedd i staff ddysgu neu ddatblygu sgiliau Cymraeg, drwy ddod i gytundeb newydd gyda'r Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol. Manylir ar y rhaglen hyfforddiant newydd yn ein hadroddiad blynyddol ar weithredu'r safonau. Darperir cwrs cynefino i staff ar y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru fel rhan orfodol o'r broses gynefino i staff newydd. Darperir y cwrs yn fisol, ac yn ddwyieithog. Datblygwyd cwrs newydd ar gyfer Uwch Weision Sifil yn ogystal, ynghyd a Chyfarwyddwyr An-weithredol y Llywodraeth.		
Hyrwyddo'r Gymraeg	134-135	Darperir canllaw fanwl i staff ar osod llofnod a neges allan o'r swyddfa ddwyieithog ar eu proffil.		

		Datblygwyd rhaglen MailTip er mwyn rhoi neges ar broffil Outlook ein staff i dynnu sylw at sgiliau yn y Gymraeg.		
Arwyddion	141-143	Ni chodir arwydd o fewn ystâd y Llywodraeth oni bai ei fod yn ddwyieithog. Rhoddir enwau Cymraeg ar ystafelloedd cyfarfod a gofodau gweithio. Darperir llyfrgell o arwyddion dros dro dwyieithog i staff eu hargraffu ar y fewnrwyd.		
Cyhoeddiadau sain	144	Gwneir cyhoeddiadau sain o fewn y gweithle yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, oni bai fod argyfwng.		

Atodiad 1

Safonau'r Gymraeg Gweinidogion Cymru

Polisi Dyfarnu Grantiau

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi polisi sydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried materion yn ymwneud a'r Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau. Amlinellir y gofynion yn Hysbysiad Cydymffurfio'r Gweinidog sydd i'w weld yma: [Hysbysiad cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg | LLYW.CYMRU](#)

Manylau'r safonau:

Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant—

(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar—

- (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Fel y noda canllaw Comisiynydd y Gymraeg ar ystyried y Gymraeg wrth ddyfarnu cyllideb drwy grant;

“Mae safonau'r Gymraeg yn ymwneud â mwy na dim ond cyflenwi gwasanaethau. Mae sefydliadau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau amrywiol sydd â'r potensial i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar y Gymraeg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – mae gan nifer o benderfyniadau sefydliadau draweffaith cymdeithasol ac economaidd sydd yn ei dro'n dylanwadu ar y Gymraeg.”

Diben y polisi yw sicrhau wrth ddyrannu cyllideb drwy grant ein bod yn rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw effaith gweithgarwch a ariennir drwy'r grant ar y Gymraeg, a bod cyfleoedd drwy'r gweithgarwch i hyrwyddo defnydd y Gymraeg.

Datblygwyd canllawiau manwl i staff sydd yn rheoli cynlluniau grantiau'r Llywodraeth ar bob cam o weinyddu cynllun grantiau:

- Cynllunio'r cynllun
- Panel sicrwydd grant
- Arfarnu a chymeradwyo
- Y dogfennau cyfreithiol sydd ar gael i gyd yn y Gymraeg
- Dyrannu, taliadau a monitro
- Gwerthuso

Mae cynrychiolydd o Dim Safonau'r Gymraeg ar y panel sicrwydd grant sydd yn craffu ar bob cynllun newydd a ddaw i law i sicrhau fod y cynlluniau yn cydblethu gyda gofynion Cymraeg 2050. Mae templed safonol y cais i'r panel sicrwydd yn gofyn am fanylion sut mae'r grant yn cyfrannu at amcanion y strategaeth, ac yn holi am sicrwydd cydymffurfiaeth gyda gofynion safonau'r Gymraeg.

Addaswyd y llythyr cynnig grantiau yn Gorffennaf 2020 i gynnwys yr amodau safonol ar gyfer pob cynllun grant, sydd yn cynnwys:

18. Y Gymraeg

(a) Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant ac mae strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg yn darparu gweledigaeth ar gyfer tyfu a datblygu'r Gymraeg ymhellach.

(b) Pan fo'r Dibenion yn cynnwys neu'n ymwneud â darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai ei bod yn afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny. Rhaid iddynt gael eu darparu mewn modd nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

(c) Pan fo darpariaeth gwasanaethau yn ffurfio rhan o'r Dibenion, rhaid i chi weithredu'n unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac amcanion Cymru 2050. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

i) Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir, gan gynnwys deunydd digidol, yn ddwyieithog.

ii) Sicrhau bod unrhyw arwyddion yn ddwyieithog.

iii) Sicrhau y cynhelir unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi neu ddigwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog.

iv) Hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn weithredol (gan gynnwys darparu gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg) o fewn gweithgareddau a ariennir.

(d) I gael cyngor cyffredinol ynghylch darparu gwasanaethau'n ddwyieithog ac i gael gwybodaeth am sefydliadau a all eich helpu, cysylltwch â "Helo Blod", sef gwasanaeth sy'n rhoi cyngor ar y Gymraeg, drwy ffonio 03000 258888 neu e-bostio heloblod@llyw.cymru.